

Bwrdd Caffael

Hysbysiad

Yng nghyfarfod y Bwrdd Caffael ar 24 Medi 2014, roedd y ffocws ar ddysgu am ddatblygiadau'r dadansoddiad gwariant, gyda chyflwyniad gan Bravo, diweddariadau ar y gwasanaeth e-gaffael, diweddariad ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC), a hefyd cyflwyniad ar Fanteision Cymunedol.

- Gan fod y cyfrifoldeb am y Bwrdd Caffael a'i berchnogaeth wedi trosglwyddo yn awr i fod yng ngofal y Gweinidog Cyllid, roedd Will Godfrey a Kerry Stephens wedi cyfarfod y Gweinidog i drafod ffocws newydd y Bwrdd. Ar ôl y cyfarfod o'r Bwrdd Caffael, byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at aelodau'r Bwrdd yn unigol i drefnu cyfarfod i drafod eu rôl ar y Bwrdd a materion penodol i'r sector.
- Cafodd y Bwrdd wybod y byddai'r Gweinidog Cyllid yn bresennol yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 1^{af} Rhagfyr.
- Cyflwynodd Andrew Heywood o Bravo grynodedd i'r Bwrdd o gonsol dadansoddi gwariant Bravo a sut roedd y system yn gweithio. Roedd y tîm polisi'n gweithio ar y data gwariant ar gyfer 2012/2013 ar hyn o bryd. Roeddent wedi ysgrifennu at sefydliadau ar gyfer 2013/2014 ac wedi cael ymatebion amrywiol gan y sector cyhoeddus. Roedd y tîm yn gweithio gyda data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, yr Heddlu, y GIG a rhai sefydliadau AU ar hyn o bryd. Dangosodd Bravo sut roedd mynd ati i edrych ar y manylion yn y system er mwyn tynnu sylw at faint oedd yn cael ei wario gan sefydliad penodol mewn categori, neu faint oedd yn cael ei wario gyda chwsmer penodol. Nododd aelodau'r Bwrdd fanteision y system a chawsant wybod bod y GCC wedi bod yn defnyddio'r system hon yn ddyddiol fel sail i'r strategaethau categori.
- Cyflwynwyd dangosfwrdd enghreifftiol i'r Bwrdd. Roedd hwn wedi'i greu i fonitro'r gwaith o fabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru. Awgrymodd y Bwrdd nifer o addasiadau o ran gosod y data yn eu cyd-destun ond roedd yn cydnabod bod hwn yn ddechrau da ac yn dymuno ei weld yn cael ei ddatblygu ymhellach.
- Mae gan y Gwasanaeth eGaffael ffocws o'r newydd yn awr ar sbarduno defnydd o'r adnoddau e-gaffael. Mae digwyddiad i randdeiliaid uwch wedi'i drefnu ar gyfer 29 Medi, i roi rhagor o fanylion am y gwasanaeth, ac roedd bwriad i gynnal digwyddiadau cyfathrebu ehangach ym mis Hydref.
- Roedd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn trefnu ei rownd olaf o recriwtio ar ei ffurf derfynol, gyda phedair swydd wag i'w llenwi. Roedd dau achos o optio allan wedi'u derbyn a'u cyflwyno i Grŵp Cyflawni'r GCC ar 9 Medi a dyma'r cyfle cyntaf i feirniadu'r broses. Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i Gynllun Busnes y GCC gael ei gyflwyno i Fwrdd y GCC ar 8 Hydref.
- Cyflwynwyd y cynnydd yn erbyn cynllun gwaith Caffael 2013/14 i'r Bwrdd. Byddai hwn yn cael ei osod ar y wefan yn awr, i adlewyrchu'r statws terfynol yn erbyn y prosiectau. Adolygwyd cynllun 2014/2015 hefyd, ac roedd y Bwrdd yn teimlo y dylid cynnal trafodaeth bellach ar y cynllun hwn yn y cyfarfod nesaf, gan holi faint o ddylanwad oedd gan y Bwrdd Caffael dros rai o'r elfennau sydd i'w cyflawni.

Y cyfarfod nesaf:

- 1^{af} Rhagfyr 2014: 12.30pm – 2pm